## Cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol PCS y Cynulliad, 3 Hydref 2018

Yn bresennol: Julie Morgan AC (Cadeirydd); Mike Hedges AC; Ryland Doyle (Staff cymorth); Helen West (Staff cymorth); Georgina Smith (Staff cymorth); Shavanah Taj (PCS); Emily Boucher (PCS); Darren Williams (PCS).

Ymddiheuriadau: Llŷr Gruffydd AC.

**1. Ymgyrch dâl genedlaethol PCS**

Ym mis Mehefin a mis Gorffennaf, cynhaliodd PCS bleidlais ymhlith ei aelodau ar weithredu diwydiannol cenedlaethol i gefnogi hawliad tâl yr undeb. Canlyniad y bleidlais oedd y ganran bleidleisio fwyaf (86 y cant) o blaid gweithredu diwydiannol mewn pleidlais statudol yn hanes yr undeb ond nid oedd y ganran a bleidleisiodd (41 y cant) yn cyrraedd y trothwy o 50 y cant sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Undebau Llafur 2016.

Roedd yr undeb bellach yn ymgynghori â chynrychiolwyr ynglŷn â cham nesaf yr ymgyrch dâl genedlaethol, gyda'r bwriad o gynnal pleidlais arall ar weithredu diwydiannol posibl yn ystod gwanwyn 2019. Yn y cyfamser, roedd yn gofyn am drafodaethau brys gyda Swyddfa'r Cabinet; cefnogi trafodaethau ynglŷn â thâl mewn adrannau ac asiantaethau penodol, a rhagor o bleidleisiau ar weithredu diwydiannol lle mae hynny'n briodol; a herio'r llywodraeth ynglŷn â chyfreithlondeb y gyfraith bresennol ar bleidleisio, yn ogystal â'r diffyg ymgynghori ar gylch gwaith tâl y Trysorlys.

Yng Nghymru, roedd PCS yn ceisio cyflwyno hawliad tâl ar y cyd, gyda Prospect a’r FDA, ar gyfer sector y llywodraeth ddatganoledig gyfan (h.y. Llywodraeth Cymru, cyrff a noddir a sefydliadau cysylltiedig eraill).

Dywedodd Aelodau’r Cynulliad fod anhyblygrwydd llywodraeth y DU o ran tâl yn fyrweledol ac yn hunandrechol ond cytunwyd nad oedd angen i’r Grŵp gymryd camau gweithredu pellach am y tro.

**2. Anghydfod tâl y Weinyddiaeth Gyfiawnder**

Roedd PCS wedi cynnal pleidlais ymhlith ei aelodau yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder rhwng 15 a 30 Awst ar becyn tāl yr adran a elwir yn Gynnig Moderneiddio Cyflogaeth. Byddai'n golygu toriad cyflog termau real i lawer o staff, ynghyd â thoriadau i oramser a thâl salwch, ymestyn yr wythnos waith a gwneud gwyliau banc a dyddiau Sadwrn yn rhan o oriau rheolaidd. Roedd cymaint o wrthwynebiad i'r cynnig fel yr ymunodd mwy na 1,000 o staff ychwanegol â’r PCS yn ystod y cyfnod pleidleisio i bleidleisio yn ei erbyn, gan gynyddu ein haelodaeth o 10 y cant ar draws y sector cyfiawnder.

Pleidleisiodd 93.64 y cant o'r aelodau i wrthwynebu'r fargen. Y ganran a bleidleisiodd oedd 74.37 y cant. Cafodd y fargen hefyd ei gwrthod mewn pleidleisiau a gynhaliwyd gan y tri undeb cyfiawnder arall - FDA, Prospect a’r GMB. Roedd y canlyniadau hyn wedi rhoi pwysau ar y cyflogwr i rwygo’r cynlluniau MEP a dychwelyd at y bwrdd trafod, lle byddai PCS yn parhau i fynnu gwell bargen i bob aelod - bargen na fyddai'n cyfaddawdu telerau ac amodau presennol. Byddai hefyd yn cadw'r posibilrwydd o bleidlais ar weithredu diwydiannol yn agored pe na bai’r trafodaethau'n dwyn ffrwyth.

Cytunwyd y byddai PCS yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Grŵp am y datblygiadau yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

**3. Cau swyddfeydd ac adleoli**

Rhoddodd PCS adroddiad ar strategaeth ystadau Llywodraeth y DU. Roedd yn cynrychioli bygythiad cyffredinol i swyddi a gwasanaethau i'n haelodau ledled y DU ond roedd yn debygol o effeithio'n arbennig o wael ar Gymru oherwydd bod ei dibyniaeth ar ganolfannau canolog mor amhriodol i'r ddaearyddiaeth, y seilwaith trafnidiaeth, dosbarthiad y boblogaeth a lefelau uchel yr allgáu digidol yma. Roedd dwy ganolfan wedi'u cynllunio ar gyfer Cymru ar hyn o bryd: un yng Nghaerdydd, yn gwasanaethu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn bennaf, gan ddisgwyl y byddai bron i holl swyddfeydd eraill yr Adran yng Nghymru yn cau; a'r llall yn gwasanaethu'r Adran Gwaith a Phensiynau yn Nhrefforest, gan arwain at gau Canolfannau Budd-daliadau Merthyr, Caerffili a Chasnewydd, Canolfan Bensiynau Cwmbrân a safle'r Adran Gwaith a Phensiynau yng Ngabalfa yng Nghaerdydd. Yn ddiweddar, rhoddwyd caniatâd cynllunio i'r ganolfan ar Ystâd Ddiwydiannol Trefforest, er gwaethaf pryderon a godwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r perygl cynyddol o lifogydd o ganlyniad i'r adeilad newydd.

Er gwaethaf gwaith cyfrifo gan reolwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn seiliedig ar godau post cartref y staff, y byddai o leiaf 600 y tu allan i'r amser teithio i'r gwaith derbyniol ar gyfer canolfan Trefforest, nid oeddent wedi gwneud unrhyw ymgais i asesu'n iawn y problemau y byddai staff yn eu hwynebu o ran cyrraedd safle'r ganolfan arfaethedig. Mae PCS yn parhau i ddadlau y dylid cyfweld yr holl aelodau sydd â phryderon yn unigol yn awr fel y gellir asesu maint y broblem o ganoli yn iawn. Rydym hefyd yn rhoi pwysau ar reolwyr i ddod o hyd i atebion i osgoi'r perygl gwirioneddol o ddiswyddo os byddant yn parhau i fynd ymlaen â'r cynllun.

O ganlyniad i ymgyrchu gan PCS, roedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi cytuno i gadw ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym Mhorthmadog. Mae swyddi yng nghanolfan Ddyledion yr Adran Gwaith a Phensiynau ym Mhorth hefyd wedi eu hadleoli'r pellter byr i loriau gwag uwchben Canolfan Waith Tonypandy.

Mae Pwyllgor PCS Cymru wedi cytuno i dynnu sylw at effaith gyffredinol toriadau Whitehall ar gymunedau ledled Cymru a datblygu ymgyrch unedig i wrthwynebu, gan weithio gyda TUC Cymru hefyd – gan fynd ar drywydd polisi'r olaf o gefnogi'r gwaith o gadw swyddi mewn cymunedau lleol - a gyda gwleidyddion lleol a Grŵp Trawsbleidiol y Cynulliad.

Cytunwyd y dylai'r Grŵp ysgrifennu at yr Adran Gwaith a Phensiynau i roi pwysau arnynt o ran asesu anghenion staff yn gywir mewn perthynas â'r symudiad arfaethedig i Drefforest.

**4. Credyd Cynhwysol**

Gan fod y prif undeb sy'n cynrychioli gweithwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau, ymhlith gweision sifil eraill, wedi bod â phryderon difrifol o'r cychwyn am ddatblygiad, gweithrediad ac effaith rhaglen Credyd Cynhwysol y llywodraeth, roedd yr undeb wedi gofyn am atal cyflwyno'r Credyd Cynhwysol y llynedd tra bod y problemau difrifol y gwnaethom ni ac eraill eu codi, yn cael sylw. Ymhlith y problemau roedd mater yr oedi cynwysedig o chwech wythnos ar gyfer taliad cyntaf. Roedd hefyd wedi gwrthwynebu'r toriadau i'r system sy'n golygu y bydd y Credyd Cynhwysol bron i £3 biliwn y flwyddyn yn llai hael na'r system y mae'n ei disodli. Ychydig iawn oedd y llywodraeth wedi'i wneud hyd yma i fynd i'r afael â hyn, er y cytunwyd ar ddiwygiadau sylweddol i'r broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol, gan gynnwys newidiadau i'r cyfnod aros ac arafu'r broses gyflwyno.

Rhoddodd yr undeb safbwynt rheng flaen o'r problemau a gafwyd gyda'r Credyd Cynhwysol ar ôl ei gyflwyno i wahanol rannau o Gymru, gan gynnwys oedi gyda thaliadau ac wrth ymateb i ymholiadau, llwyth gwaith staff anghynaladwy ac anghyson a materion yn ymwneud â sut y mae galwadau ffôn yn cael eu trin.

Diolchodd Aelodau'r Cynulliad i'r PCS am y briff a gofynnwyd cwestiynau manwl; cytunwyd i ystyried cynnal cyfarfod ar y pwnc hwn yn unig, gan gynnwys Unit Community o bosibl, a allai gyflwyno barn hawlwyr budd-daliadau.

**5. Dyfodol Arvato (darparwr Gwasanaethau a Rennir yr Adran Drafnidiaeth)**

Rhoddodd PCS adroddiad ar y sefyllfa bresennol yn ymwneud â chontract Gwasanaethau a Rennir yr Adran Drafnidiaeth a oedd wedi ei ddal ers preifateiddio yn 2012 gan Arvato, y cwmni o'r Almaen, o'i ganolfan ym Mro Abertawe. Mae 200 o staff ar y safle, a throsglwyddodd ychydig dros eu hanner i Arvato ar adeg preifateiddio ac maent yn parhau i fod ar delerau ac amodau'r DVLA o dan reolau TUPE. Roedd y cwmni'n gofyn am ymestyn ei gontract a dywedwyd wrtho am gyflwyno cais rhatach er mwyn sicrhau hyn, gan achosi pryderon am doriadau pellach yn lleol. O dan gyfraith caffael, byddai'n rhaid i'r contract cyfan fynd allan i dendr ar ôl 2023.

Roedd yr undeb wedi gwrthwynebu preifateiddio gwasanaethau a rennir yn gyson ac mae ein haelodau ar y safle wedi dweud ers tro y byddai'n well ganddynt ddod yn ôl yn fewnol; roedd pwysau gwleidyddol yn cael ei roi ar yr Adran Drafnidiaeth i gyflawni hyn.

Roedd PCS hefyd yn anhapus â'r ffordd yr oedd Arvato yn ymdrin â chysylltiadau diwydiannol, yn enwedig mewn perthynas â thâl, lle mae dyfarniadau cyflog is na chwyddiant wedi cael eu cyflwyno ers preifateiddio; byddai'n cyflwyno ei hawliad cyflog ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf o fewn ychydig ddyddiau. Er bod cyflogau staff wedi aros yn eu hunfan a'u cyfraniadau pensiwn wedi'u torri, cadarnhaodd cofnodion Tŷ'r Cwmnïau fod y cwmni wedi gweld elw cynyddol a chodiadau cyflog enfawr i brif swyddogion, ac eto mae ei rwymedigaethau treth wedi bod yn sylweddol. Deallwyd hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud taliad o £1,000,000 i'r cwmni, ac nid yw'r sail ar ei gyfer yn glir.

Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ar ddyfodol gweithrediad Arvato yn Abertawe ac ar natur yr arian a ddarparwyd i Arvato a chytunodd Mike Hedges i wneud ymholiadau am yr olaf.